



NHS
WALES
GIG
CYMRU

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym
Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:**
Cyfeirlyfr o brosiectau arddangoswyr

Medi 2019

Cyflwyniad

Mae’r cyfeirlyfr hwn yn rhoi trosolwg o nifer o brosiectau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, sy’n cael eu datblygu, wedi’u sefydlu neu sydd wedi eu cwblhau ac yn dangos y pum ffordd o weithio sy’n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) ac yn cyfrannu at nifer o nodau llesiant. Rhoddir manylion cyswllt a dolenni, lle bo hynny’n berthnasol, os hoffech ddarganfod mwy, a gallwch ddarllen mwy hefyd ar ein [gwefan](#).

Nid yw’r rhestr yn gynhwysfawr ac os ydych yn ymwneud â darn o waith neu’n gwybod am ddarn o waith yr ydych yn meddwl y dylid tynnu sylw ato yma, yna cysylltwch â tom.porter@wales.nhs.uk.

Rheoli fersiynau

Y fersiwn hon: 25 Medi 2019-2 terfynol

Cynnwys

Allwedd	2
Prosiectau sy’n cael eu datblygu (A-Z)	3
Prosiectau sydd wedi’u sefydlu (A-Z)	5
Prosiectau sydd wedi’u cwblhau (A-Z)	12
Mynegai	13

Allwedd

Amcanion llesiant BIP (2019-2020) o Strategaeth Lluio Dyfodol ein Lles, 2015-2025

- | | | | |
|---|---|----|--|
| 1 | Lleihau anghydraddoldeb iechyd | 6 | Sicrhau system gofal wedi'i gynllunio lle mae'r galw a'r gallu yn gytbwys |
| 2 | Sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i bobl | 7 | Lleihau niwed, gwastraff ac amrywiad yn gynaliadwy gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni |
| 3 | Sicrhau bod pawb yn cymryd cyfrifoldeb am wella ein hiechyd a'n lles | 8 | Bod yn lle gwyh i weithio a dysgu |
| 4 | Cynnig gwasanaethau sy'n rhoi'r iechyd poblogaeth y mae gan ein dinasyddion yr hawl i'w ddisgwyl | 9 | Gweithio'n well gyda phartneriaid i ddarparu gofal a chefnogaeth ar draws y sectorau gofal gan wneud y defnydd gorau o'n pobl a thechnoleg |
| 5 | Sicrhau system o ofal heb ei gynllunio (brys), sy'n rhoi'r gofal cywir yn y lle cywir, y tro cyntaf | 10 | Rhagori ym meysydd addysgu, ymchwil, arloesi a gwelliant a darparu amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu |

Dulliau gweithio



Hirdymor



Cydweithio



Integreiddio



Atal



Cynnwys

Nodau llesiant



Llewyrchus



Cymunedau cydlynus



Cydnerth



Diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg



Mwy cyfartal



Cyfrifol ar lefel fyd-eang



Iachach

Prosiectau sy'n cael eu datblygu (A-Z)

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Prosiect Gwenyn	Prosiect cydweithredol gyda Medicentre a'r Brifysgol yn edrych ar osod cychod gwenyn gwrthfacteria ar ystadau'r BIP. Effaith amgylcheddol gadarnhaol yn ogystal ag ymchwil ar ofalu am glwyfau a lleihau defnydd o wrthfotigau. Cytundeb mewn egwyddor i leoli cychod gwenyn yn Hafan y Coed, Ysbyty Llandochau ac adeilad Cochrane, Ysbyty Athrofaol Cymru, parhau i weithio gyda'r adran Ystadau, y trydydd sector a'r Brifysgol i symud ymlaen wrth aros am ardd wenyn yn Ein Perllan.	7 8 9	    	    	Simone Joslyn Prosiect Llesiant
'HealthPathways'	Gweithredu plattform TG sy'n gweithio fel storfa ar gyfer llwybrau y cytunwyd arnynt rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd y prosiect yn gweithredu 50 o lwybrau clinigol i ddechrau. Bydd y broses yn ymgysylltu ar draws clinigwyr gofal sylfaenol ac eilaidd. Y nod yn y pen draw yw rhoi mwy o eglurder am y llwybrau a lleihau amrywiad.	1 2 3 4 6 7 9	  	  	Patricia Osborne Llunio Dyfodol ein Lles - HealthPathways
Gardd Horatio	Mae Uned Anafiadau Cefn Cymru yn un o 11 o Unedau Asgwrn Cefn Dynodedig yn y DU. Bydd yr Uned yn symud i Adran Asgwrn Cefn a Niwrolegol newydd a phwrpasol yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae disgwyl i'r uned agor yn 2021 ac fel rhan o'r aildatblygiad, gwahoddwyd elusen Gardd Horatio i greu gardd newydd i gleifion.	2 3 4 9	    	   	Simone Joslyn Gardd Horatio Caerdydd
Fi, fy nghartref, fy nghymuned	Cynnig llwyddiannus Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer prosiect trawsnewid yn cwmpasu saith prosiect, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol, rhyddhau cyflymach, timau cymunedol integredig, a dull ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) i greu plant a phobl ifanc cydnherth.	1 2 3 4 5 6 7 9 10	    	   	Tîm Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Cyn adsefydlu i adsefydlu	Mae'r cysyniad syniad cyn adsefydlu yn cyfateb â hyfforddiant marathon a'r egwyddor bod ymarfer corff parhaus wedi'i strwythuro ochr yn ochr â maeth da a pharatoad seicolegol dros gyfnod o wythnosau yn arwain at well cyflyru cardiofasgwlaidd, anadlol a chyhyrol. Bwriedir ei gyflwyno fesul cam yn ystod Chwarter 4 19/20	2 3 4 6 7 9 10	   	  	Rachael Barlow

Prosiectau sydd wedi'u sefydlu (A-Z)

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Cynghreirio	Mae'r prosiect yn ceisio gwella profiad y claf trwy newid y drafodaeth ynghylch gofal yn y gymuned a chwalu rhwystrau sefydliadol. Mae'n cynnwys cynrychiolaeth o ofal sylfaenol, gofal eilaidd, timau adnoddau cymunedol, y trydydd sector, awdurdodau lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a phartneriaid eraill. Nod dull Cynghreirio yw llunio mecanwaith y gall gweithwyr clinigol benderfynu ar ddatblygiad gwasanaethau ar draws y system iechyd.	1 2 3 4 6 7 9	    	   	Ruth Jordan Cynghreirio
Amplify 2025	Rhaglen o ddigwyddiadau sy'n ceisio chwalu rhwystrau sefydliadol a dod â chynrychiolwyr o bob rhan o'r system at ei gilydd gyda gweledigaeth gyffredin o wella yw Amplify 2025. Rydym eisiau dysgu oddi wrth ein gilydd a rhannu syniadau ar gyfer dulliau system gyfan at drawsnewid diwylliant ac arweinyddiaeth.	1 2 3 4 5 6 7 8 9 10	    	      	Rachel Gidman Amplify 2025
Academi Brentisiaeth	Ein nod yw sicrhau bod ein staff yn fedrus er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau gorau oll sy'n canolbwyntio ar y claf. Bwriadwn gynyddu cyfleoedd prentisiaethau dros y 3 blynedd nesaf mewn meysydd traddodiadol fel ystadau a chrefftau a hefyd ehangu i'n swyddogaethau cefnogi hanfodol, sef cadw eiddo, arlwy, TG, AD a Chyllid; yn ogystal â chefnogi meysydd clinigol nyrsio, gweinyddu clinigol a gwasanaethau cefnogi canolog.	7 8 9	  	   	Emma Bendle Academi Brentisiaeth
Rhaglen Gelfyddydau	Mae'r celfyddydau yn gallu ac yn cael effaith gadarnhaol ar wella bywydau a phrofiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr, ymwelwyr a staff yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau eu hunain. Mae'r rhaglen gelf wedi'i seilio ar dystiolaeth gynyddol sy'n dangos bod celf yn gallu cael effaith gadarnhaol ar fywydau a lles ein cleifion a'n staff. Mae'r rhaglen hon yn cael ei galluogi gan ein cydweithredwyr yn ogystal â chefnogaeth gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.	2 3 4 8	    	 	Simone Joslyn Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Siarter Teithio'n Iach Caerdydd	Partneriaeth rhwng cyflogwyr blaenllaw sector gyhoeddus yng Nghaerdydd, yn cefnogi 14 ymrwymiad i gynyddu teithio llesol a chynaliadwy gan staff, a chyfrannu at dri tharged ar draws y ddinas (lleihau teithio â char, cynyddu defnyddio beic, cynyddu defnydd o gerbydau trydan), er mwyn lleihau ymddygiad eisteddog a gwella ansawdd yr aer a chydlyniant cymdeithasol a lleihau anghydraddoldebau ac allyriadau carbon ledled y Ddinas. Dan arweiniad tîm iechyd cyhoeddus Caerdydd a'r Fro	1 2 3 7 8 9	    	    	Dr Tom Porter Siarter Teithio'n Iach Caerdydd
Gwasanaeth Asesu a Thriniaeth Glinigol Cyhyrsgerberbydol (CMATS)	Mae CMATS yn darparu asesiad a thriniaeth amserol i gleifion sydd â chyflyrau cymalau poenus, yn y gymuned. Mae dull atal (a hunanofal) wedi'u hymgorffori yn y llwybr. Mae'n cynnwys cefnogi cleifion gyda cholli pwysau lle mae hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at eu cyflwr.	2 3 4 6 7	   	 	George Oliver Gwefan CMATS
Hyrwyddwyr Ymgynghorol Clinigol Camau Atal	Mae'r Hyrwyddwyr Ymgynghorol Clinigol Camau Atal yn grŵp o gydweithwyr clinigol sydd wedi ymrwymo i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gadw cleifion a thrigolion yn iach.	1 2 3 4 6 7 9 10	   	  	Dr Sian Griffiths Hyrwyddwyr Ymgynghorol Clinigol Camau Atal
Cydlynwyr Llesiant Cymunedol (Wellbeing4U)	Mae'r Bwrdd yn contractio gyda Chymdeithas Dai United Welsh i wella'r cysylltiadau rhwng meddygon teulu a'r gymuned, yn arbennig yn targedu cymunedau sy'n anodd eu cyrraedd, i gyflenwi blaenoriaethau iechyd cyhoeddus a gwella'r model gofal cymdeithasol.	1 2 3 4 6 9	    	   	Cheryl Williams Wellbeing4U
Strategaeth Dementia	Mae Strategaeth Dementia Caerdydd a'r Fro yn weithredol ac yn yr ail flwyddyn o'r amserlen 10 mlynedd. Yr 8 prif thema yw; mae dementia yn fusnes i bawb; bydd risg dementia yn cael ei leihau a bydd diagnosis amserol; bydd mynediad at wasanaethau yn gyfartal; caiff gwasanaethau eu cydgysylltu'n llwyr; cyflwynir gwasanaethau yn garedig a gyda thrugaredd; bydd cefnogaeth wedi'i ganolbwyntio ar ofal sylfaenol;	1 2 3 4 6 9	    	   	Dr Suzanne Wood Strategaeth Dementia

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
	bydd gofalmwyr yn derbyn gofal; a bydd argyfyngau yn cael eu hosgoi.				
Ein Perllan: Our Orchard	Datblygiad ar y cyd o dir glas ysbyty i greu amgylchedd sy'n gydnerth yn ecolegol, yn naturiol ac amrywiol, gan gefnogi iechyd a lles cleifion wrth ailsefydlu ac adfer, ac wedi'i rannu gyda'r gymuned leol	2 3 7 8 9 10	    	     	Simone Joslyn Ein Perllan
Bwyd Caerdydd a Bwyd y Fro	Partneriaethau bwyd traws sector yw Bwyd Caerdydd a Bwyd y Fro, sy'n anelu at sicrhau bod bwyd iach, fforddiadwy a chynaliadwy ar gael i drigolion ein hardal.	1 2 3 4 7 9 10	    	     	Pearl Costello Bwyd Caerdydd Rhianon Urquhart Bwyd y Fro
GoodGym Caerdydd	Rydym yn grŵp o redwyr sy'n cyfuno cadw'n heini a gwneud daioni. O Dre-biwt i Lanisien rydym yn rhedeg y strydoedd gan helpu'r rhai mwyaf anghenus. O osod llenni Mr H, oherwydd na all wneud hynny ei hun neu rawio tunnell o gompost ar gyfer Grŵp Tyfu Bwyd fel y gallant dyfu llysiau – mae pob rhediad GoodGym yn wahanol. Ariannwyd gan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro	1 2 3 9	    	     	GoodGym Caerdydd
Rhaglenni gwella iechyd a chamau atal	Rhaglenni camau atal i leihau cyfraddau ysmegu a defnydd niweidiol o alcohol, cynyddu'r nifer sy'n cael brechiadau imiwneiddio, annog dewisiadau bwyd iach a gweithgaredd corfforol rheolaidd	1 2 3 9	    	   	Dr Tom Porter Cynllun Iechyd Cyhoeddus 2019-22 Caerdydd a'r Fro
Oriel HeARTh	Gofod ar gyfer oriel yn Ysbyty Athrofaol Llandochau sy'n agored i'r cyhoedd yn ogystal â chymuned yr ysbyty, yn cyfrannu at wella iechyd a lles. Yn hyrwyddo diwylliant, meithrin perthynas, ymdeimlad o berchnogaeth a dynoli amgylchedd ysbyty.	2 8 9 10	    	  	Simone Joslyn Celfyddydau Creadigol ac Iechyd

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Polisi safonau bwyd ar safleoedd bwytai a manwerthu ysbyty	Mae Polisi Safonau Bwyd ar safleoedd Bwytai a Manwerthu Ysbytai'r cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac yn anelu at wneud dewisiadau iach yn ddewisiadau haws. Mae'r tîm iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio gyda thimau gweithredol ac arlwyio i sicrhau bod 75% o'r holl fwyd a diod yn cyfateb â chanllawiau iechyd am gynnwys siwgr a braster	1 8234	  	 	Rhianon Urquhart Tŷ bwyta Y Gegin
Gwneud y gorau o Becyn Cymorth Gwerth Cymdeithasol	Wedi'i gynllunio ar gyfer unrhyw unigolyn neu dîm sy'n comisiynu, caffael neu ddylunio gwasanaethau gan geisio creu gwerth cymdeithasol, nod y pecyn cymorth hwn yw tynnu sylw at beth o'r gwaith arbennig sy'n digwydd yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro a thu hwnt, i helpu gyda chyflawni dull cyson o ddeall a gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol	1 72349	    	    	Tîm Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol Pecyn Cymorth Gwerth Cymdeithasol
Cerddoriaeth i'n Clustiau	Rhaglen o weithgaredd cerddorol gyda'r nod o wella profiad claf, cynnig cyffroad a thynnu sylw cleifion hirdymor bregus a chleifion diwedd oes, gwella lles, lleihau lefelau straen a gwella ansawdd bywyd cleifion, ymwelwyr a staff	29	  	  	Simone Joslyn Celfyddydau Creadigol ac Iechyd
Polisi Optimeiddio Canlyniadau (OOP)	Mae'r polisi hwn yn galluogi cleifion sydd angen cefnogaeth gyda rhoi'r gorau i ysmegu neu i gadw at bwysau iach, i gysylltu â'r gwasanaethau priodol, eu cynorthwyo i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw a gwella eu hiechyd a'u lles cyn ac ar ôl llawdriniaeth.	1 7236	   	 	Dr Sian Griffiths Gwefan OOP
Ein Treftadaeth Iechyd	Trefnu a gwarchod atgofion ac arteffactau sefydliadol, amddiffyn a dathlu treftadaeth ein safleoedd a'r atgofion cysylltiedig i'n cleifion a'n staff	89	   	 	Simone Joslyn Ein Treftadaeth Iechyd
Cynaliadwyedd gofal sylfaenol	Datblygu modelau newydd gofal i sicrhau eu bod yn rhoi canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth, swyddogaethau newydd, llwybrau a gwasanaethau a gefnogir gan drefniadau gweithio amlddisgyblaeth a gweithio aml asiantaeth yn y gymuned. Yn cynnwys	19	    	   	Chris Darling

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
	Gweithwyr Cyswllt Iechyd Meddwl, yr holl feddygfeydd a chefnogaeth Iechyd Meddwl Trydydd Sector Haen O i bob clwstwr yng Nghaerdydd a'r Fro				
Re:fit - Rhaglen Strategol Rheoli Ynni	Prosiectau gweithredu a rheoli ynni ar raddfa fawr yn cael eu rheoli gan contractwr allanol, trwy contract hirdymor (10 – 15 mlynedd). Gostyngiad o 10% mewn defnydd blyneddol, 3500 tonnall yn llai o CO ₂ , arbediad blyneddol ariannol o £1 miliwn	7 9 10	 	 	Jon McGarrigle
Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (Bwyd a Hwyl)	Rhaglen aml asiantaeth i ddarparu bwyd a gweithgareddau maethlon ac iach yn ystod gwyliau'r ysgol i blant mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghaerdydd a'r Fro, gwella eu hiechyd a'u cyrhaeddiad addysgol; darparu gwaith ychwanegol i staff; a lleihau gwastraff bwyd trwy ailddosbarthu	1 2 3 7 9 10	    	      	Katie Palmer Bwyd a Hwyl, Gwefan CLILC
Llunio Dyfodol Ein Lles yn y Gymuned	Darparu'r prif seilwaith ffisegol sydd ei angen i gefnogi gwell mynediad at wasanaethau ac asedau cymunedol, gwella canlyniadau iechyd, gosod naws ar gyfer cyd gynrychiadau ac yn y pendraw lleihau anghydraddoldebau iechyd. Prif ffocws ar gydweithio â phartneriaid a darparu gwasanaethau wedi'u cydlynu ac yn gydweithredol a hynny'n agosach at y cartref.	1 2 3 4 6 7 8 9	    	    	Chris Dawson-Morris Llunio Dyfodol ein Lles yn y Gymuned
Pencampwyr Gwerth Cymdeithasol	Fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sefydlu Fforymau Gwerth Cymdeithasol, er mwyn gwneud y gorau o ganlyniadau cadarnhaol a lles pobl leol. Rydym wedi penodi saith "Pencampwr" Gwerth Cymdeithasol i ffurfio Grŵp Llywio a fydd yn cefnogi gwaith ein Partneriaeth.	1 2 3 6 7 9	    	    	Tîm Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol Pencampwyr Gwerth Cymdeithasol
Gwobrau Cydnabod Staff	Mae ein Gwobrau Cydnabod Staff yn cynnwys categori 'Gweithredu heddiw am well yfory' sy'n cydnabod staff sy'n fodelau rôl am ddangos y pum dull gweithio a chyfrannu at y nodau llesiant	8 10	 	      	Nicky Punter Gwobrau Cydnabod Staff

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Cynllun teithio cynaliadwy	Mae trefniadau rheolaeth traffig sy'n cael eu cyflwyno a'u gwella yn annog dull mwy cynaliadwy sy'n cynnwys cynlluniau Parcio a Theithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac yn Ysbyty Athrofaol Llandochau; llefydd llogi beic Nextbike; datblygiad gwasanaeth gwennol rhwng y ddau safle; datblygiad canolbwyntiau bws a beic yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae arolwg teithio blynyddol yn digwydd gyda staff, cleifion ac ymwelwyr er mwyn dylanwadu ar gynllun gweithredu'r Cynllun teithio cynaliadwy. Mae'r Bwrdd wedi ymuno â'r Siarter Teithio Iach Caerdydd	3 7 8	  	   	Colin McMillan Teithio cynaliadwy
Y Dewis Gweithredol	Integreiddio dewis iaith Saesneg/Cymraeg i lwybr y claf gan sicrhau bod cleifion yn cael dewis pa iaith y mae'n well ganddynt ei defnyddio.	1 2 4	 	   	Alun Williams
Fframwaith Comisiynu BIP gan gynnwys comisiynu'r trydydd sector	Mae ystod o gontractau gyda phartneriaid trydydd sector yn cefnogi amcanion y Bwrdd a'r Bwrdd Clinigol e.e. darparwyr iechyd meddwl yn cefnogi adferiad trwy gynhwysiant cymdeithasol, cyngor ariannol, llais defnyddwyr amrywiol; darparwyr yn cefnogi pobl hŷn i gynnal annibyniaeth, cyngor iechyd cyhoeddus	1 2 3 4 6 7 9	    	   	Melanie Wilkey
Cymru o Blaid Affrica	Mae gan y Bwrdd Iechyd grŵp cydgysylltu amlddisgyblaeth sy'n goruchwyllo a chefnogi ein partneriaeth trwy fenter Cymru o Blaid Affrica. Trwy eu gwaith, mae'r elusennau hyn yng Nghymru yn helpu i sefydlu cymunedau cryf yn Affrica gyda mentrau fel rhannu sgiliau, sefydlu perthynas weithio gydweithredol gyda chymunedau lleol a chefnogi addysg ac iechyd.	1 8 9 10	  	 	Simone Joslyn Cymru o Blaid Affrica

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Ailgylchu Cymhorthion Cerdded	Mae Prosiect Cymhorthion Cerdded yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd dychwelyd ac adnewyddu cymhorthion cerdded. Mae'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i lansio amnest cymhorthion cerdded ac yn rhannu gwybodaeth oddi mewn ac ar draws sefydliadau am sut i wneud hyn. Mae'r dull darbodus hwn yn ymgorffori partneriaeth gydweithredol gyda'r Gwasanaeth Prawf - Cwmni Adnewyddu Cymunedol, Gwasanaethau Ad-dalu Cymunedol i adnewyddu cymhorthion cerdded.	2 7 9	   	  	Emma Cooke Cynllun Ailgylchu Cymhorthion Cerdded
Hyfforddiant Iaith Gymraeg	Cydweithrediad gyda Chanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu gwersi Cymraeg i staff. Mae staff sydd eisiau gwisgo bathodyn iaith Gymraeg (i ddangos eu bod yn siarad/dysgu Cymraeg) yn cael pecyn gyda gwybodaeth arall am ddysgu Cymraeg	2 4 7 9	  	  	Alun Williams Hyfforddiant Iaith Gymraeg
Ynys Saff (Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw), Caerdydd	Yn ogystal â chynnig pecyn cyfannol o gefnogaeth a gofal clinigol i oddeutu 500 o ddioddefwyr ymosodiad rhyw bob blwyddyn, yn oedolion a phlant, mae'r tîm yng Nghaerdydd yn canolbwyntio ymdrechion sylweddol ar atal, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r heddlu a gwasanaethau plant.	1 2 3 7 9	    	  	Rachel Hennessy Ynys Saff

Ydych chi'n gwybod am brosiect y dylid ei gynnwys yma? Cysylltwch gyda tom.porter@wales.nhs.uk – diolch.

Prosiectau sydd wedi'u cwblhau (A-Z)

Prosiect	Disgrifiad	Amcanion llesiant BIP	Dulliau gweithio	Nodau llesiant	Rhagor o wybodaeth
Blodau: Lles a Chreadigrwydd mewn Oed	Archwilio sut y gall y celfyddydau creadigol gael eu defnyddio i gynorthwyo teimladau, y cof, profiadau a meddyliau trwy weithdai a sesiynau symud.	2 3 4 9	    	  	Simone Joslyn Blodau: Lles a Chreadigrwydd mewn Oed

Ydych chi'n gwybod am brosiect y dylid ei gynnwys yma? Cysylltwch gyda tom.porter@wales.nhs.uk – diolch.

Mynegai

Cyflwyniad.....	1	Polisi safonau bwyd ar safleoedd bwytaï a manwerthu ysbyty	8
Rheoli fersiynau	1	Gwneud y gorau o Becyn Cymorth Gwerth Cymdeithasol	8
Allwedd	2	Cerddoriaeth i'n Clustiau	8
Prosiectau sy'n cael eu datblygu (A-Z).....	3	Polisi Optimeiddio Canlyniadau (OOP).....	8
Prosiect Gwenyn	3	Ein Treftadaeth Iechyd	8
'HealthPathways'	3	Cynaliadwyedd gofal sylfaenol.....	8
Gardd Horatio	3	Re:fit - Rhaglen Strategol Rheoli Ynni	9
Fi, fy nghartref, fy nghymuned	3	Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (Bwyd a Hwyl).....	9
Cyn adsefydlu i adsefydlu	4	Llunio Dyfodol Ein Lles yn y Gymuned	9
Prosiectau sydd wedi'u sefydlu (A-Z).....	5	Pencampwyr Gwerth Cymdeithasol.....	9
Cynghreirio.....	5	Gwobrau Cydnabod Staff	9
Amplify 2025.....	5	Cynllun teithio cynaliadwy	10
Academi Brentisiaeth.....	5	Y Dewis Gweithredol	10
Rhaglen Gelfyddydau.....	5	Fframwaith Comisiynu BIP gan gynnwys comisiynu'r trydydd sector	10
Siarter Teithio'n Iach Caerdydd	6	Cymru o Blaid Affrica.....	10
Gwasanaeth Asesu a Thriniaeth Glinigol	6	Ailgylchu Cymhorthion Cerdded	11
Cyhyrsgerberbydol (CMATS)	6	Hyfforddiant Iaith Gymraeg	11
Hyrwyddwyr Ymgynghorol Clinigol Camau Atal	6	Ynys Saff (Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw), Caerdydd.....	11
Cydynwyr Llesiant Cymunedol (Wellbeing4U).....	6	Prosiectau sydd wedi'u cwblhau (A-Z)	12
Strategaeth Dementia.....	6	Blodau: Lles a Chreadigrwydd mewn Oed	12
Ein Perllan: Our Orchard	7	Mynegai.....	13
Bwyd Caerdydd a Bwyd y Fro	7		
GoodGym Caerdydd.....	7		
Rhaglenni gwella iechyd a chamau atal.....	7		
Oriel HeARTh.....	7		